# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION – CYFARFOD EBRILL 2018

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 18 Ebrill 2018 |
| **AMSER** | **7.00yh** |
| **LLEOLIAD** | **Ysgol RHOSGADFAN** |

| | | |
|---|---|---|
| 1. | | **Croeso**<br>Rhoddwyd croeso i bawb gan y Cadeirydd Nerys Evans. Yn bresennol roedd Tom Ellis, Aeron M Jones, Michelle Williams, Jason Hunt, Bryn Hughes, Gwilym Ll Williams, Peter Williams, Gwilym V Thomas. Hefyd yn bresennol roedd y Clerc Caryl E Lewis. |
| 2. | | **Ymddiheuriadau**<br>Cafwyd ymddiheuriadau gan Elin Evans a Rhys Owen. |
| 3. | | **Datgan Buddiant**<br>Dim i'w nodi |
| 4. | | **Cadarnhau cofnodion 21 Mawrth 2018 a materion yn codi**.<br><br>Cywiriad i'w nodi - Bws Rhostryfan sydd ddim yn mynd tan 8:45am.<br><br>Cynigwyd fod y cofnodion yn gywir gan BH a TE yn eilio. |
| 5. | | **Materion Misol:** |
| | a) | Meddygfa Rhostryfan<br>BH wedi gyrru cwyn i mewn i'r Bwrdd Iechyd, maent wedi cydnabod ond heb dderbyn ymateb eto. Sian Gwenllïan hefyd wedi gyrru cwyn at Brif Weithredwr y Bwrdd yn erfyn iddynt ymateb yn brydlon.<br>Diffyg tystiolaeth o fod wedi cynnal Asesiad effaith Cydraddoldeb ydy'r gwyn fwyaf. BH wedi ei wahodd i gynrychioli claf lleol sydd ag iechyd difrifol. Diffyg o'r math yma o asesiad yn amlwg yn effeithio ar drigolion bregus y pentref. Pan yn stryd y farchnad, roedd yn hygyrch i gleifion. Gallu cerdded mewn yn syth a pharcio tu allan. Hafan iechyd - mae tipyn o waith cerdded o'r maes parcio anabl. Bwriad i gau'r Feddygfa ar Ebrill 27ain. Bwrdd Iechyd gyda'r hawl i newid meddwl. Meddygfa heb lythyru neb, dim ond poster yn y drws.<br>Clerc i yrru llythyr cwyn i mewn i'r Bwrdd Iechyd a gofyn pam heb ymgynghori efo ni fel cyngor. Hefyd Clerc i wneud cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth yn gofyn am gopi o'r asesiad effaith Cydraddoldeb. |
| | b) | Trydan Llanwnda<br>Dim byd i adrodd arno. |
| | c) | Bysiau<br>Dal neb yn defnyddio bws Rhos Isaf. AMJ yn parhau i geisio cael bws ar wahân i'r plant ysgol. |
| | d) | Defibrillator Rhostryfan<br>Clerc wedi derbyn cadarnhad gan BT nad oes modd defnyddio'r kiosk ar gyfer y defib gan nad oes trydan ynddo. Edrych rŵan ar safleoedd yr ysgol a chapel.<br>Clerc i ofyn i Kirsty gysylltu gyda Jason Hunt ynglyn a chael trydan i'r kiosk. |
| | e) | GVT – Golau ffordd ger Bodfan, Rhosgadfan byth yn gweithio<br>Wedi derbyn cadarnhad gan Colin Worth, Uned Goleuo stryd fod y golau 30 ddim yn gweithio ond nid yw hyn yn gyfrifoldeb ar Cyngor Gwynedd. |
| | f) | GLLW - Dwr yn dod lawr o Gae'r Odyn, Rhostryfan, ac yn cario silt i lawr i gae coch, anodd i geir basio a throi yna. |

| | |
|---|---|
| | Wedi adrodd wrth Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd ac yn aros am ymateb.<br>g) GVT - Ceir yn cael eu parcio mewn mannau anaddas yn Dreflan, criw ailgylchu wedi methu mynd a biniau oddi yno heddiw achos methu pasio'r ceir. Hefyd mae faniau yn parcio yno ar y pafin a blocio pobl sydd angen pasio gyda phramiau. Angen llythyr i CCG gyda chŵyn swyddogol - problemau yn mynd yn waeth gyda'r parcio.<br>Cwyn ysgrifenedig gan drigolyn o Dreflan wedi ei dderbyn gyda phryder am y sefyllfa parcio, yn enwedig pe bai tan, ar hyn o bryd nid yw loriau na cheir yn gallu pasio.<br>Clerc i gydnabod y llythyr a'i basio ymlaen i CCG.<br>h) GLLW – Bag wast melyn, rhwng Llwyn a Wern Olau (ar hyn y stretch o Wern Olau, wedi cael ei daflu ar wal.)<br>Clerc wedi adrodd wrth Gyngor Gwynedd. Bag rŵan wedi ei daflu dros y wal.<br>i) EE - Mae'r Cyngor wedi torri gwrychoedd yn ddiweddar ar hyd lôn Ffrwd cae Du ond mae sbwriel yn ofnadwy ar hyd yr ochrau rŵan.<br>Aros am ymateb gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.<br>j) NE - Rhosgadfan - pont wrth tyddyn hen, peryglus i weld. Pwyllgor cae chwarae sydd yn gyfrifol? Angen ei drafod yn cyfarfod nesaf.<br>Coedwig gymunedol - angen adrodd ar y perygl, GVT am holi os ydy hwnna yn mynd i mewn i'r cynllun Uwch Gwyrfai. Clerc i holi Gerallt Swyddog Llwybrau pwy sydd yn gyfrifol.<br><br>k) TE - Rhwng Wernlas ddu ar bont, dwr yn hel yn y pant (gwaelod y bont ar ochr arall)<br>Aros am ymateb gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd. |
| 6. | **Derbyn Adroddiadau**<br>a) Swydd Clerc - Ceisiadau a threfniadau cyfweld<br>Nododd y Clerc fod 7 cais wedi ei dderbyn am y swydd. Cytunwyd y byddai 4 ar y panel cyfweld sef - NE, BH, TE, GVT. Cynnal yn Ysgol Rhostryfan, 6:15pm, nos Fawrth Mai 1af.<br><br>b) Wal tir newydd y Fynwent<br>Dal dim diweddariad am y cerrig sydd wedi cael eu cynnig gan y Chwarel, mae angen cyfarfod safle gyda pherchennog y fynwent. MW a GVT i godi yn y Grŵp Cyswllt.<br><br>c) Arolwg o gerrig beddi'r fynwent<br>Adroddiad wedi ei dderbyn gan Phil Johnston, Cyngor Gwynedd. Angen rhoi datganiad yn y Lleu yn nodi nifer cerrig beddi sydd ddim yn saff a bod 3 mis o rybudd yn cael ei roi neu bydd carreg yn cael ei gosod yn fflat. Bydd rhaid gwneud hynny er mwyn diogelu'r Cyngor.<br><br>ch) Cais am lamp stryd<br>Clerc wedi derbyn cais i osod golau stryd ychwanegol yn Rhostryfan. Yn anffodus, nid yw hyn yn rhywbeth gall y Cyngor Cymuned ariannu, awgrymu iddynt gysylltu gyda'i Gynghorydd Sir.<br><br>d) Torri eiddew'r fynwent<br>Clerc wedi derbyn pris o tua £750 gan Gwmni Gwalch i drin yr eiddew, bydd angen ei wneud mewn 2 ran. Cynnig i dderbyn y pris. BH yn cynnig, GVT yn eilio.<br><br>dd) GDPR<br>Cyfrifoldebau newydd ar Gynghorau Cymuned. Clerc i ddod a phapur briffio i gyfarfod nesaf. |

| | |
|---|---|
| | e) Sedd wag Rhosgadfan<br>Hysbyseb allan, dyddiad cau dechrau Mai ac ethol yn cyfarfod nesaf. |
| 7. | **Is-bwyllgorau**<br>Dim i'w nodi |
| 8. | **Materion Ariannol**<br>a) Adroddiad Ariannol<br>Derbyniwyd yr adroddiad a chytunwyd ar y taliadau.<br><br>**<u>Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 18 Ebrill 2018</u>**<br><br>**<u>1. Cyfrif Cadw</u>**<br>Balans a ddygwyd ymlaen: **21,817.22**<br>+ Ad-daliad llwybrau 821.08<br>- Transfer i Gyfrif Siec <u>4,000.00</u><br>**Balans ar derfyn busnes 18 Ebrill 2018 18,638.30**<br><br>**<u>2. Cyfrif Siec</u>**<br>Balans a ddygwyd ymlaen: **1,088.66**<br>+ Transfer o Gyfrif Cadw 4,000.00<br><br>- Cyllid y Wlad Mawrth (18.4.18) 104.80<br>- 101067 Clwb Felin 100.00<br>- 101061 Cylch Meithrin Llanwnda 500.00<br>- 101069 Clwb Peldroed Rhosgad a Rhostryf 150.00<br>- 101072 Wyn Williams 464.00<br>- 101063 Clwb Peldroed Llandwrog 150.00<br>- 101054 Unllais Cymru 272.00<br>- 101058 Mynwent Hermon 100.00<br>- 101071 Cyflog Clerc Mawrth 461.05<br>- 101064 Ysgol Felinwnda <u>500.00</u><br><br>**Balans ar derfyn busnes 18 Ebrill 2018: 2,286.81**<br><br>**<u>Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 18 Ebrill 2018:</u>**<br><br>Cyflog Clerc Ebrill 461.05<br>Cyllid y Wlad Ebrill 104.80<br>Wyn Williams 1,692.00<br>Cyngor Gwynedd <u>1.00</u><br>**Cyfanswm 2,258.85**<br><br>b) Trefniadau ddiwedd flwyddyn ariannol<br>Cadarnhau y bydd yr Is Grŵp cyllid yn cyfarfod cyn y cyfarfod nesaf am 6yh. Bydd BH yn cymryd sedd Elwyn Jones ar yr is grŵp.<br><br>c) Taliad £150 i aelodau<br>Hyn yn dod i rym yn fuan ond dal ddim yn glir sut bydd gweinyddu hwn, bydd pob aelod yn derbyn taliad o £150. Hawl i wrthod. Bydd hyn angen ei drafod ymhellach, Aelodau yn nodi na fyddent yn awyddus i'w dderbyn. |
| 9. | **Materion Cynllunio**<br>Dim |
| 10. | **Gohebiaeth a chylchgronau**<br>a) Grŵp Cyswllt Chwarel Moeltryfan<br>Cyfarfod nesaf 26 Ebrill, bydd GVT, MW ac AMJ yn mynychu. |

| | |
|---|---|
| | |
| 11. | **Materion Cyfarfod Nesaf**<br>MW – Biniau halen, angen holi AMJ beth sydd yn digwydd efo mynd at yr Ombwdsman.<br>BH – Awgrym y dylid adolygu ffioedd claddu. BH yn cynnig adolygu a rhoi argymhelliad i is-bwyllgor y Fynwent.<br><br>**Dyddiad: 16 Mai 2018**<br>**Lleoliad: Ysgol RHOSTRYFAN** |